OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2018 No. 760

Rheoliadau Diogelu'r Amgylchedd (Microbelenni) (Cymru) 2018

RHAN 2

Troseddau

Y terfyn amser ar gyfer erlyn troseddau

5.—(1) Caniateir i unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud â throsedd o dan reoliad 3 neu 10 y gellir ei rhoi ar brawf gan lys ynadon gael ei rhoi ar brawf os caiff ei gosod o fewn 12 mis ar ôl y dyddiad y daw'r erlynydd i wybod am dystiolaeth sy'n ddigonol ym marn yr erlynydd i gyfiawnhau'r achos.

(2) Ni chaniateir dwyn unrhyw achos fwy na thair blynedd ar ôl cyflawni'r drosedd.